Hydref 2024

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

# Dyfed-Powys

## Adroddiad perfformiad cryno chwarter 2 2024/25

**Cyflwyniad**

Sefydlodd Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn pob ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt am gyfanrwydd plismona yn eu hardal. Mae’n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawniad gweithredol plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae adran 70 o Ddeddf Diwygio’r heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy’n berthnasol i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae’r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy’n ymwneud â’r berthynas bedair rhan, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throseddu a’r Ysgrifennydd Cartref.

Bydd pob parti yn cadw at y saith egwyddor a nodir yn y Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y partïon hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i’r berthynas rhyngddynt a bydd pob parti yn gwneud eu gorau glas i wneud i’r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, datblygodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wiriad iechyd sy’n cwmpasu’r holl feysydd yn y protocol y mae gan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu bŵer a dyletswydd gyfreithiol drostynt. Mae hyn yn cyfateb i 21 maes sy’n cael eu rhannu ymhellach yn 54 maes gweithredu gan wahanol feysydd busnes o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh), mae pedwar o’r rhain wedi’u nodi’n barhaol fel amherthnasol, sy’n gadael 50 maes gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Rhoddir sgôr coch, melyn, gwyrdd i bob adran i amlygu unrhyw feysydd sy’n peri pryder.

Gwyrdd - Cydymffurfio’n llawn, dim angen unrhyw waith ychwanegol

Melyn - Cydymffurfio’n rhannol, angen rhywfaint o waith ychwanegol

Coch - Nid yw’n cydymffurfio, nid yw’r ddyletswydd yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd.

Mae crynodeb o’r gwiriad iechyd ar gael i’r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys crynodeb gweithredol o’r chwarter blaenorol.

**Crynodeb gweithredol**

Mae'r adroddiad canlynol yn cwmpasu cyfnod adrodd chwarter 2 y flwyddyn ariannol 2024/25 (Gorffennaf, Awst a Medi 2024)

Cymhariaeth statws coch melyn gwyrdd

Yn y chwarter hwn, mae perfformiad nifer o gamau gweithredu wedi newid, mae un cam gweithredu wedi newid o felyn i wyrdd ac mae tri wedi symud o wyrdd i felyn. Esbonnir y diwygiadau isod:

**Mae'r chwarter hwn wedi gweld gwelliant mewn perfformiad gydag un cam gweithredu yn symud o felyn i wyrdd. Eglurir y gwelliant isod:**

Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol y CHTh – mae hyn yn newid o ambr i wyrdd gan fod adolygiad wedi'i gynnal yn dilyn etholiad y CHTh ym mis Mai 2024 ac mae cyfrifoldebau portffolio wedi'u cytuno. Darperir rhagor o fanylion yn yr adroddiad.

**Yn y chwarter hwn, mae tri cham gweithredu wedi symud o wyrdd i felyn ar y sail bod gwaith yn cael ei wneud i lywio penderfyniadau a strategaethau yn y dyfodol. Esbonnir y diwygiadau isod:**

Llywio penderfyniad y CHTh ynghylch y praesept – mae hyn yn newid o wyrdd i ambr oherwydd y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â praesept 2025/2026.

Gosod y cynllun ariannol tymor canolig – mae hyn yn newid o wyrdd i ambr oherwydd y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r cynllun ariannol tymor canolig nesaf ar gyfer 2025/2026 a thu hwnt.

Cyllido rhaglen gyfalaf i ddarparu asedau priodol i'r heddlu i ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol – mae hyn yn newid o wyrdd i ambr gan fod y rhaglen yn cael ei diwygio ar hyn o bryd a bydd yn cael ei chynnwys yn y cynllun ariannol tymor canolig nesaf.

.

**Crynodeb:**

O'r 50 maes gweithredu:

| | Chwarter 4 (23/24) | Chwarter 4 (23/24) | Chwarter 1 | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Coch | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Melyn | 15 | 30% | 19 | 38% | 21 | 42% |
| Gwyrdd | 35 | 70% | 31 | 62% | 29 | 58% |

**17a) Gosod cyfeiriad ac amcanion strategol yr heddlu drwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'n rhaid i'r cynllun hwn roi sylw i'r Gofyniad Plismona Strategol**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Datblygu Cynllun Heddlu a Throseddu yn unol â'r gofynion a nodir yn Neddf Diwygio'r heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7) | | Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus a phartneriaid i ben ar 1 Hydref 2024. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o sesiynau ar gyfer aelodau etholedig lleol ac asiantaethau partner, grwpiau ffocws gyda grwpiau diddordeb arbennig, gweithgaredd ymgysylltu drwy sioeau'r haf ac arolwg ar-lein.<br><br>Cafodd y Prif Gwnstabl ddrafft cychwynnol o'r blaenoriaethau ar 18 Medi 2024 a gofynnwyd iddo roi ei adborth i'r SCHTh erbyn 1 Hydref 2024.<br><br>Bydd y Panel Heddlu a Throseddu yn cael copi o'r cynllun drafft a'r adroddiad ymgynghori yn eu cyfarfod ar 25 Hydref 2024. |
| Datblygu cynllun cyflawni ar gyfer yr heddlu a throseddu i gefnogi cyflawni'r amcanion a | | Mae Cynllun Busnes SCHTh yn rhoi manylion mewn perthynas â sut y bydd SCHTh yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae hyn yn cael ei adrodd i'r Panel Heddlu a Throseddu bob chwarter. Cymeradwywyd y Cynllun Busnes |

| | | |
|---|---|---|
| nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu | | ar gyfer 2024/25 gan y Panel Heddlu a Throseddu ar 15 Mai 2024 er gwybodaeth. Bydd gwaith yn dechrau'n fuan ar Gynllun Busnes Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025/26 unwaith y bydd y Cynllun Heddlu a Throseddu wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol. |
| Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben | | Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus a phartneriaid i ben ar 1 Hydref 2024. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o sesiynau ar gyfer aelodau etholedig lleol ac asiantaethau partner, grwpiau ffocws gyda grwpiau diddordeb arbennig, gweithgaredd ymgysylltu drwy sioeau'r haf ac arolwg ar-lein.<br>Cafodd y Prif Gwnstabl ddrafft cychwynnol o'r blaenoriaethau ar 18 Medi 2024 a gofynnwyd iddo roi ei adborth i'r SCHTh erbyn 1 Hydref 2024.<br>Bydd y Panel Heddlu a Throseddu yn cael copi o'r cynllun drafft a'r adroddiad ymgynghori yn eu cyfarfod ar 25 Hydref 2024. |

**17b) Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i gefnogi craffu effeithiol | | Mae adolygiad o drefniadau llywodraethu wedi'i gynnal ac mae trefniadau newydd yn cael eu sefydlu dros yr hydref i gefnogi gwella cyfrifoldebau statudol y CHTh a sicrhau craffu effeithiol. |
| Datblygu ac adolygiad blynyddol y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol | | Unwaith y daw'r adolygiad o drefniadau llywodraethu i ben, bydd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei adolygu. Mae drafft i fod i gael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2024. |
| Sefydlu amserlen o weithgareddau sy'n seiliedig ar risg ac sy'n edrych i'r dyfodol i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr heddlu | | Nod y SCHTh yw drafftio argymhellion a sylwadau'r panel craffu o fewn deg diwrnod gwaith i'r cyfarfod. Yna caiff yr adroddiadau eu dosbarthu i'r rhai sy'n bresennol er mwyn cael sylwadau cyn cael eu hanfon at yr adran berthnasol o fewn yr heddlu er mwyn cael eu hymateb i'r sylwadau a'r argymhellion. Unwaith y |

| | | |
|---|---|---|
| | | caiff ei gymeradwyo, caiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi ar wefan SCHTh.<br><br>Gwnaed pedwar argymhelliad gan y Panel Craffu Datrysiadau Tu Allan i'r Llys ym mis Medi 2024 yn ystod eu gweithgaredd adolygu achosion yn ymwneud â'r troseddau ymosodiad neu gwir niwed corfforol a oedd wedi cael eu trin drwy ddatrysiad y tu allan i'r llys. Gwnaed 16 o argymhellion gan y Panel Sicrhau Ansawdd mewn perthynas â'r heddlu yn cymryd camau dilynol yn ymwneud ag unrhyw adroddiadau o gyfathrebiad maleisus y maent yn eu cael, a'r hyfforddiant sydd ar gael i swyddogion sy'n ymdrin â dioddefwyr cam-drin domestig. |
| Sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei chynrychioli yng ngwaith craffu'r CHTh | | Parhaodd y craffu drwy'r Panel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a'r gwirfoddolwyr ar y Panel Sicrhau Ansawdd a'r Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd.<br><br>Adolygodd y Panel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys achosion o ymosodiad a niwed corfforol gwirioneddol. Edrychwyd ar 19 achos i gyd, naw oedolyn a naw person ifanc. Roedd argymhellion a chanfyddiadau'r panel yn cynnwys nodiadau atgoffa i'w hanfon at swyddogion ynghylch ffiniau erlyniadau a gaiff eu harwain gan dystiolaeth ac atgoffwyd swyddogion o bwysigrwydd nodi rhesymeg glir dros gyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys. Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar droseddau casineb, menywod ac anghymesuredd.<br><br>Cynhaliwyd dau gyfarfod Panel Sicrhau Ansawdd yn ystod y chwarter hwn. Edrychodd y panel ar achosion defnyddio grym ym mis Gorffennaf ac achosion stelcio ac aflonyddu ym mis Awst. Tynnodd canfyddiadau allweddol y panel ym mis Gorffennaf sylw at bwysigrwydd bod swyddogion yn cofnodi a nodi'n gywir eu rhesymeg dros ddefnyddio'r grym a ddefnyddir. Canfuwyd yn y cyfarfod ym mis Awst fod rhai swyddogion, a oedd yn ymateb i achosion stelcio ac aflonyddu, |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi methu â gwneud cyswllt llygaid â'r dioddefwyr, a allai fod wedi tarfu ar y cyfathrebu.<br><br>Cyfarfu'r Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd ym mis Awst i adolygu achosion o blant yn y ddalfa. Daeth y pwnc hwn yn sgil adroddiad 2024 gan Gomisiynydd Plant Lloegr ar noeth-chwilio plant. Nododd yr adroddiad mai Heddlu Dyfed-Powys oedd â'r cyfraddau uchaf o chwilio plant yn y ddalfa heb orchymyn yng Nghymru a Lloegr. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cadarnhau ers hynny fod y data a ddarparwyd i'r Comisiynydd Plant yn anghywir. Er mwyn darparu rhagor o graffu a sicrwydd, canolbwyntiodd y Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd ar blant yn y ddalfa a chanfuwyd yn gyffredinol: O'r pedwar noeth-chwiliad a ddigwyddodd, darparodd y pedwar sail resymegol dda dros eu cyflawni. Yr amser cyfartalog a aeth heibio o gyrraedd i awdurdodi cadw oedd 14 munud. |
| Goruchwylio a gweithredu argymhellion arolygiaeth allanol | | Cyhoeddwyd 6/6 o ymatebion o fewn yr amserlen statudol.<br><br>1) Arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL) 2023–25 - Arolygiad o Heddlu Dyfed-Powys. Cyhoeddwyd 17 Tachwedd 2023. Disgwyliwyd ymateb CHTh ar 12 Ionawr 2024, cyflwynwyd ar 11 Ionawr 2024.<br><br>2) Archwiliad o effeithiolrwydd ymateb yr heddlu a chyrff gorfodi'r gyfraith i gamfanteisio rhywiol ar blant mewn grwpiau yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddwyd 8 Rhagfyr 2023. Disgwyliwyd ymateb y CHTh erbyn 2 Chwefror 2024, cyflwynwyd 29 Ionawr 2024.<br><br>3) Adroddiad ar uwch-gŵyn y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol – Adran 60 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 a chraffu cymunedol annibynnol ar stopio a chwilio. Cyhoeddwyd 14 Rhagfyr 2023. Disgwyliwyd ymateb CHTh ar 2 Chwefror 2024, cyflwynwyd ar 30 Ionawr 2024. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 4) Diwallu anghenion dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol. Cyhoeddwyd 19 Rhagfyr 2023. Disgwyliwyd ymateb CHTh ar 13 Chwefror 2024, cyflwynwyd ar 6 Chwefror 2024.<br><br>5) Arolygiad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaeth i gam-drin ac esgeuluso plant ym Mhowys. Cyhoeddwyd 1 Chwefror 2024. Disgwyliwyd ymateb CHTh ar 28 Mawrth 2024, cyflwynwyd ar 18 Mawrth 2024.<br><br>6) Effaith recriwtio a chadw staff ar y system cyfiawnder troseddol. Cyhoeddwyd 15 Chwefror 2024. Disgwyliwyd ymateb CHTh ar 11 Ebrill 2024, cyflwynwyd ar 21 Mawrth 2024. |

**17c) Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr heddlu**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy'n caniatáu gwell dealltwriaeth o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu | | Cafodd Cynllun Busnes 2024/25 ei ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2024. Mae'r panel yn parhau i gael diweddariadau chwarterol ar y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun.<br><br>Mae gwaith wedi parhau ar ddatblygu fframwaith perfformiad, y bydd yr heddlu a'r gwasanaethau a gomisiynwyd yn cael eu mesur yn ei erbyn. |
| Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff | | Mae adolygiad o drefniadau llywodraethu wedi'i gynnal ac mae trefniadau newydd yn cael eu sefydlu dros yr hydref i gefnogi gwella cyfrifoldebau statudol y CHTh a sicrhau craffu effeithiol. |
| Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl | | Cyfarfu'r CHTh a'r Prif Gwnstabl ar 7 Hydref 2024 i drafod perfformiad y Prif Gwnstabl a'i ffocws ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Bydd y CHTh yn cael adroddiad erbyn diwedd mis Hydref a fydd yn manylu ymhellach ar dystiolaeth yn ymwneud â pherfformiad y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r amcanion a osodwyd wrth ei benodi. Bydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | amcanion newydd ar gyfer y Prif Gwnstabl yn cael eu gosod ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei ystyried gan y CHTh, a fydd yn seiliedig ar elfennau allweddol o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. |

**17d) Penderfynu ar y gyllideb, gan ddyrannu asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr heddlu**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Hysbysu penderfyniad CHTh mewn perthynas â'r praesept | | Mae gwaith yn parhau ar y gofyniad cyllidebol ar gyfer 2025/2026. Mae cyfarfodydd cychwynnol rhwng y Comisiynydd, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid wedi cychwyn ac mae cyfarfodydd gyda'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Swyddog Cyllid ac Is-grŵp Praesept y Panel Heddlu a Throseddu wedi'u nodi yn y dyddiadur. Cyflwynir y gofyniad cyllidebol yn y seminar cyllid ddiwedd mis Tachwedd. |
| Pennu cynllun ariannol tymor canolig | | Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar y cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer 2025/2026, a bydd y gofyniad cyllidebol yn cael ei gyflwyno i'r Panel Heddlu a Throseddu yn y seminar cyllid ddiwedd mis Tachwedd. |
| Ariannu rhaglen gyfalaf i ddarparu asedau priodol i'r heddlu er mwyn iddynt ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol | | Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei diwygio i adlewyrchu gofynion yr heddlu a bydd yn cael ei chynnwys yn y cynllun ariannol tymor canolig. |

**17e) Penodi'r Prif Gwnstabl**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Penodi Prif Gwnstabl | | Penodwyd y Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr 2021. |

**17f) Cael gwared ar y Prif Gwnstabl**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Dilyn y broses a nodir yn rhan 2 o atodlen 8 o ddeddf 2011 (Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011) a rheoliadau a wnaed o dan adran 50 o Ddeddf yr Heddlu 1996(a) | Amherthnasol | Amherthnasol |

**17g) Cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer ardal yr heddlu**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Sicrhau y darperir gwerth am arian | | Mae gwerth am arian wedi'i ymgorffori ym mhob dogfennaeth gaffael ac mae'r holl staff caffael yn gwbl ymwybodol o'r angen i ddangos gwerth am arian drwy dendrau a chontractau. Mae'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol ar y Cyd, y rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog contractau yn manylu'n benodol ar gyfrifoldebau a gofynion ar gyfer sicrhau gwerth am arian.<br><br>Mae'r Prif Gwnstabl yn cadeirio'r Bwrdd Perfformiad bob deufis sy'n caniatáu mesur a monitro perfformiad gan ddangos gwerth am arian gwasanaethau plismona. Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cadeirio'r Bwrdd Newid a Thrawsnewid gan sicrhau y ceir golwg strategol ac ystyriaethau gwerth am arian ar gyfer newid a buddsoddiadau gan gynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwireddu buddion. Mae presenoldeb SCHTh ym mhob un o'r byrddau llywodraethu uchod.<br><br>Mae Grŵp Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd Cymru Gyfan yn rhannu mentrau newydd ac yn monitro cynnydd ar gyflawni arbedion. Mae'r grŵp hwn yn fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arferion gorau. Rhennir gwaith parhaus tîm Adolygiad yr Heddlu yn y fforwm hwn.<br><br>Cryfhawyd trefniadau rheoli ariannol ymhellach, ac mae'r Bwrdd Cyllid Strategol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig bellach wedi'i ymgorffori'n llawn.<br><br>Mae partner busnes cyllid yn cefnogi deiliaid cyllidebau drwy gyfrifannu manylion gwariant, helpu i lunio rhagolygon a chynorthwyo i lywio cydymffurfiaeth ag arferion caffael.<br><br>Cynhyrchir amryw adroddiadau meincnodi, er enghraifft mewn perthynas â meysydd penodau datganiad rheoli'r heddlu, ac ystyrir y rhain yn weithredol drwy bartneriaid busnes cyllid. |
| Cydymffurfiaeth statudol ystadau gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ar gyfer defnydd gweithredol | | Mae'r tîm ystadau a'r tîm iechyd a diogelwch yn parhau i gynnal asesiadau misol strwythuredig ar y cyd o gydymffurfiaeth statudol gan sicrhau bod safonau cydymffurfio uchel yn deillio o hynny. Mae hwn yn fecanwaith annibynnol sy'n parhau i ddarparu adroddiadau ar gydymffurfiaeth i'r byrddau llywodraethu perthnasol. Mae tystiolaeth o welliant o fis i fis gyda chamau lliniarol a chynlluniau unioni ar waith ar gyfer unrhyw waith adfer a nodwyd cyn cau. |
| Archwilio cyfleoedd i leihau effaith amgylcheddol | | Mae'r Grŵp Cynaliadwyedd yn parhau i weithredu o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ac yn parhau i flaenoriaethu mentrau a strategaethau allweddol i gyflawni sero net erbyn 2050. Mae nifer o aelodau wedi mynychu hyfforddiant Sero Net Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol yn ddiweddar, sy'n cyd-fynd â chyrsiau pellach a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod nesaf. Mae |

| | | |
|---|---|---|
| | | hyfforddiant llythrennedd carbon hefyd yn cael ei drefnu ar gyfer aelodau'r grŵp dros y misoedd nesaf.<br><br>Mae adnodd cynaliadwyedd pwrpasol o dan reolaeth y tîm iechyd a diogelwch wedi'i benodi, ac mae'n mynd trwy'r broses fetio ar hyn o bryd. Cynigir ei ariannu drwy arbedion carbon/cost a gyflawnir trwy gyflwyno mentrau ar draws amrywiol adrannau, gan arwain at arbedion cost a lleihau carbon ar draws pob adran ar draws y sefydliad. Bydd y rôl yn darparu fframwaith a mapiau llwybr clir ar gyfer pob maes busnes gan ganiatáu blaenoriaethu allyriadau nwyon tŷ gwydr allweddol i'w lleihau ar draws swyddogaethau a gweithrediadau'r sefydliad.<br><br>Mae tueddiadau defnydd cyfleustodau a gwelliannau yn parhau i gael eu holrhain ar lefel cyfleustodau adeiladau, ac mae gostyngiad clir ar draws yr ystad yn amlwg yn y cyfnod ac wedi'i alinio â blynyddoedd blaenorol, cydnabyddir bod hyn yn gadarnhaol. Gellir alinio hyn â nifer o newidiadau bach a chynlluniau lleol sy'n parhau i gael eu cymhwyso a'u cyflawni ar draws yr ystad. Mae'r Prosiect Ffotofoltäig Is-adrannol bellach wedi'i gwblhau ac mae gwahaniaethau sylweddol yn y galw am bŵer eisoes yn amlwg ar draws y safleoedd.<br><br>Mae prosiect gwefru Cymru gyfan yn mynd rhagddo gyda gwasanaeth gosod cyflawn gyda BP Pulse, ac mae Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi'r fenter i sicrhau bod cysondeb a gwerth am arian yn amlwg wrth fwrw ymlaen â llunio seilwaith gwefru cerbydau trydan amserol ar draws plismona yng Nghymru. |
| Archwilio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu allanol | | Mae trafodaethau cyfarfodydd byrddau prosiect Strydoedd Diogelach 5 a diweddariadau ar hawliadau gan bartneriaid wedi rhoi sicrwydd bod gweithgaredd y prosiect ar y trywydd iawn i fodloni disgwyliadau chwarter 3. Nid oes risgiau wedi'u hadrodd ar weithgarwch arfaethedig ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae adborth cadarnhaol yn dod i law gan dderbynwyr wrth gyflawni'r prosiect.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd bwrdd prosiect rheolaidd gyda chyllid Ardaloedd â Phroblem Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac er bod arweinwyr prosiect yn darparu diweddariadau cadarnhaol ar gynnydd, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn eu hawliadau. Mae partneriaid yn honni bod oedi mewnol gydag adrannau cyllid sy'n rhwystro eu gallu i baratoi anfonebau mewn pryd ar gyfer dyddiadau cau hawliadau. Cynhelir rhagor o weithgarwch gyda phartneriaid unigol yr effeithir arnynt gan y mater hwn dros yr wythnosau nesaf i sicrhau bod y rhagolygon a'r gweithgaredd disgwyliedig yn parhau ar y trywydd iawn i gael eu gwario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.<br><br>Bydd rhywfaint o wario ar y cyllid Dyletswydd Trais Difrifol yn chwarter 2 fel y rhagwelwyd. Fodd bynnag, mae risgiau'n parhau ynghylch y cynllun ymyrraeth am weddill y cyfnod ariannu. Cynhelir cyfarfod bwrdd eithriadol ym mis Hydref i geisio cymeradwyaeth ar gyfer cynigion prosiect er mwyn sicrhau y bydd y dyraniad cyllid yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2025). Mae risgiau wedi cael eu huwchgyfeirio i'r Swyddfa Gartref sydd wedi darparu cefnogaeth ac arweiniad i fwrw ymlaen â hyn cyn gynted â phosibl. |
| Archwilio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd menter noddi | | Mae SCHTh yn parhau i weithredu fel aelod o Fwrdd Cronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer cynghorau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ac yn cyfrannu at drafodaethau ynghylch cyllid cymunedol i wella'r rhanbarth.<br><br>Mae gwaith yn parhau i geisio cymorth gan ffynonellau cyllid eraill i ychwanegu at ein cyfeiriadur cyswllt i'w rannu ag ymgeiswyr am gyllid nad ydynt yn bodloni amodau ariannu CHTh. Mae hyn yn galluogi ymgeiswyr am gyllid i geisio cyllid o ystod mor eang â phosibl o ffynonellau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae cyfeiriadur busnes i gynnwys pob busnes canolig i fawr yn Nyfed Powys wedi'i ddatblygu ac mae aelodau'r tîm yn ei gyflenwi. Mae hyn hefyd yn cynnwys grwpiau consortiwm busnes a chyllid sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth i gefnogi twf a chefnogaeth gymunedol. Mae llythyr wedi'i ddrafftio i ymgysylltu â busnesau lleol ynghylch nawdd a chyfleoedd cydweithredol gyda'r CHTh. Cyhoeddir hwn yn dilyn lansio'r Cynllun Heddlu a Throseddu. |
| Gweithredu a chynnal cofrestr risg i nodi a lliniaru risgiau i SCHTh a'r heddlu | | Mae risgiau'n parhau i gael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio bob chwarter ac i'r Uwch-dîm Rheoli bob pythefnos.<br><br>Mae deialog parhaus â chynrychiolwyr yr heddlu sy'n gyfrifol am risg i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chynnwys ar y cofrestrau risg. |
| Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh | | Mae staff yn parhau i ddefnyddio cyfleoedd hyfforddi priodol a pherthnasol sydd wedi'u nodi trwy gynlluniau hyfforddi. Mae gwaith wedi'i wneud yn fewnol mewn perthynas ag anghenion hyfforddi er mwyn bwydo i'r gofynion gosod cyllideb ar gyfer 2025/2026. |

**17h) Ymrwymo i gytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eraill, cyrff plismona a phartneriaid eraill**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â Gweledigaeth Plismona i Gymru | | Mae cyfleoedd cydweithio ar flaen meddwl y swyddfa a lle bynnag y bo'n briodol bydd yr CHTh yn ymgysylltu â'r gweithgareddau. Mae cydweithio yn ffocws sylweddol i blismona yng Nghymru. Datblygwyd cylch gorchwyl er mwyn sefydlu Bwrdd Cydweithio Cymru Gyfan. Mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu i ddigwydd ddechrau 2025. |

| | | |
|---|---|---|
| Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill | | Lansiwyd y Fforwm/Grŵp Cyllido a Phrosiectau mewn cydweithrediad â'r Heddlu ym mis Medi 2024.<br><br>Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o SCHTh a'r heddlu a bydd yn darparu llwyfan arweiniad i gydweithwyr sy'n ceisio cymorth i ddatblygu prosiectau a/neu ystyried cyllid.<br><br>Cafwyd adborth cadarnhaol gan uwch arweinwyr sy'n cefnogi'r fenter hon yn llwyr.<br><br>Cynhelir y cyfarfod cyntaf i asesu unrhyw gynigion gan gydweithwyr yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 14 Hydref gydag adborth a chanllawiau priodol yn cael eu darparu i gefnogi cynnydd prosiectau a/neu'r cyllid.<br><br>Recriwtiodd yr heddlu gydlynydd newydd ar gyfer gweithio gyda'n partneriaid yn ystod mis Medi 2024. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu hailsefydlu rhwng y rôl hon a Rheolwr Cyllid Allanol SCHTh i sicrhau cydweithrediad cadarnhaol a pherthnasoedd gwaith gwell rhwng yr heddlu, SCHTh a phartneriaid allanol. |
| Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i graffu ar gytundebau cydweithio | | Cytunwyd ar bapur yng nghyfarfod diwethaf Plismona yng Nghymru i gyflwyno trefniant llywodraethu newydd i graffu ar drefniadau cydweithio. Datblygwyd cylch gorchwyl er mwyn sefydlu Bwrdd Cydweithio Cymru Gyfan. Mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu i ddigwydd yn gynnar yn 2025 |

**17i) Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau dilys y cyhoedd ar waith**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Gweithio gyda'r heddlu i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd; bodloni'r amcanion ynddo | | Ym mis Awst, cyhoeddwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd newydd ar gyfer 2024-2028, gyda'r nod o wella cydraddoldeb a chynhwysiant o fewn Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gan y cynllun newydd bedwar prif amcan a fydd yn anelu at fynd i'r afael â heriau cydraddoldeb a chynhwysiant, gan sicrhau gwasanaeth teg ac effeithiol i bob cymuned.<br><br>Cynyddu amrywiaeth y gweithlu: Mae'r cynllun yn pwysleisio amrywio'r gweithlu a grwpiau gwirfoddol er mwyn adlewyrchu cymunedau Dyfed-Powys yn well. Mae'n amlinellu cynlluniau sy'n anelu at wella recriwtio, cadw staff, a datblygiad gyrfa, gyda thargedau clir i sicrhau gweithlu cynrychioliadol.<br><br>Dileu anghydraddoldebau hiliol: Mewn ymateb i fentrau cenedlaethol a lleol, mae'r cynllun hefyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau ar sail hil o fewn Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh a'u dileu. Mae hyn yn cynnwys gweithredu polisïau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil a glynu wrth ganllawiau Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu gan Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, a Chynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.<br><br>Cryfhau perthnasoedd cymunedol: Mae'r cynllun yn ceisio datblygu a gwella perthnasoedd rhwng yr heddlu a chymunedau lleol trwy blismona cymunedol rhagweithiol ac ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaethau ymgysylltu â'r gymuned ystyrlon, sefydlu mecanweithiau adborth tryloyw, a defnyddio swyddogion ymgysylltu yn effeithiol.<br><br>Hyrwyddo diwylliant cynhwysol: Un o'r prif nodau yw meithrin diwylliant o gynhwysiant a pharch o fewn Heddlu Dyfed-Powys a'r SCHTh. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant amrywiaeth gorfodol, hyrwyddo mecanweithiau adrodd mewnol, ac ymdrin ag unrhyw ymddygiad hiliol, casineb at fenywod, neu ymddygiad homoffobig. |
| Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu SCHTh a'i chynllun gweithredu, a pholisi a strategaeth | | **Crynodeb o'r Fforwm Ymgysylltu â Ieuenctid**<br><br>Am y tro cyntaf yn Nyfed-Powys, mae grŵp o lysgenhadon ieuenctid wedi dwyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i gyfrif, yn |

| | | |
|---|---|---|
| cyfryngau cymdeithasol yn ymgorffori darparu cyfleoedd i gymunedau lleol lywio a dylanwadu ar benderfyniadau a hyrwyddo gwaith y CHTh a'r Prif Gwnstabl yn rhagweithiol. | | dilyn canfyddiadau ymgynghoriad Y Sgwrs y llynedd. Rhoddodd sesiwn y Bwrdd Plismona gyfle i bobl ifanc godi pryderon a gofyn cwestiynau uniongyrchol yn ymwneud â materion a amlygwyd yn yr adroddiad.<br><br>Datgelodd adroddiad Y Sgwrs, ymgynghoriad cynhwysfawr â phobl ifanc ledled y rhanbarth, bryderon allweddol ynghylch diogelwch cymunedol, cymorth iechyd meddwl, a rôl plismona yn eu bywydau beunyddiol. Mewn ymateb, gwahoddodd y Comisiynydd lysgenhadon ieuenctid i ymgysylltu ag ef yn uniongyrchol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu lleisio barn ac y gweithredir ar y farn honno.<br><br>Yn ystod y cyfarfod, cododd y llysgenhadon ieuenctid amrywiaeth o gwestiynau, gan dynnu ar themâu o'r adroddiad, a mynd i'r afael â phynciau fel plismona cymunedol, iechyd meddwl, ac ymgysylltu â phobl ifanc.<br><br>**Diwrnodau a Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned**<br><br>Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu a mynychwyd hwy gan gynrychiolwyr y CHTh a'r SCHTh yn ystod chwarter 2. Y ffocws yn y digwyddiadau hyn oedd hyrwyddo'r Ymgynghoriad Heddlu a Throseddu, er mwyn sicrhau bod cymaint o leisiau Dyfed-Powys â phosibl yn cael eu cofnodi i helpu i lunio dyfodol plismona. Y digwyddiad cyntaf a fynychwyd yn chwarter 2 oedd Gŵyl Gynhwysiant Balchder Sir Benfro, lle ymgysylltodd staff yr SCHTh â'r gymuned LHDTC, gan hyrwyddo'r cynlluniau gwirfoddoli, y broses adolygu cwynion ac apelio, Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu ac unrhyw wasanaethau sydd ar gael drwy'r SCHTh.<br><br>Ddiwedd mis Gorffennaf, roedd yr SCHTh a'r PCC yn rhannu stondin yn Sioe Frenhinol Cymru. Mae'n un o brif ddigwyddiadau Cymru, gan ddenu dros 200,000 o ymwelwyr i ardal Heddlu Dyfed-Powys o bob cwr o'r byd. O'r herwydd, gall canol |

tref Llanfair-ym-Muallt ddod yn amgylchedd heriol i'r gwasanaethau brys yn ystod yr wythnos.

Tra yn y Sioe, cyfarfu'r CHTh â chynrychiolwyr o NFU Cymru, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, Undeb Ffermwyr Cymru, a Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt, sy'n gweithio'n agos gydag Ambiwlans Sant Ioan fel canolfan reoli amlasiantaeth i sicrhau diogelwch a llesiant ymwelwyr. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar amrywiol fentrau a syniadau gyda'r nod o hyrwyddo cydweithio a chefnogaeth i'n cymunedau ffermio.

Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst, mynychodd cynrychiolwyr SCHTh, gan gynnwys aelodau o'n cynlluniau gwirfoddoli, ddiwrnodau agored yng ngorsafoedd heddlu Aberhonddu a'r Drenewydd er mwyn ymgysylltu â chymunedau Dyfed-Powys yn yr ardaloedd hyn, hyrwyddo gwaith y swyddfa a'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Ym mis Awst, mynychodd y CHTh a staff y SCHTh Sioe Amaethyddol Sir Benfro ochr yn ochr â phump o'n llysgenhadon ieuenctid. Digwyddiad deuddydd yw hwn, gan ddenu tua 25,000 o bobl ar y diwrnod cyntaf. Roedd hwn yn gyfle gwych i ymgysylltu â'r cyhoedd a hyrwyddo'r amrywiol gyfleoedd sydd ar gael drwy'r SCHTh, yn ogystal â hyrwyddo'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mynychodd Cyngor Sir Caerfyrddin ddigwyddiad Hanes Pobl Dduon Gorllewin Cymru 365 Race Council Cymru yng Nghaerfyrddin, ochr yn ochr â chynrychiolydd o SCHTh ym mis Medi er mwyn dathlu rhagoriaeth Pobl Dduon yng Nghymru. Yn ystod y digwyddiad, cafodd y mynychwyr gyfle i ymgysylltu â'r comisiynydd a rhannu eu barn fel rhan o'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu.

**Ymgysylltu â chynrychiolwyr y gymuned**

Yn ystod mis Medi, cynhaliodd y CHTh bedwar sesiwn ymgysylltu ac ymgynghori wyneb yn wyneb yn Aberystwyth, Caerfyrddin, y Drenewydd ac Aberhonddu, ac un sesiwn ar-lein gyda chynghorwyr sir, tref a chymuned ar draws ardal Dyfed-Powys i sicrhau bod eu barn nhw, a barn y cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli, wedi'i chasglu fel rhan o'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Gwahoddwyd pob un o'r 252 cynghorydd a'r 312 cynghorydd tref a chymuned i gymryd rhan yn unrhyw un o'r sesiynau yr oedd y CHTh a staff y SCHTh yn eu cynnal, i rannu eu barn ar flaenoriaethau arfaethedig y Cynllun Heddlu a Throseddu. O blith 564 o wahoddedigion, mynychodd 31 y sesiynau ymgynghori.

**Ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol**

Yn ystod chwarter 2, cysylltodd SCHTh â 56 o grwpiau cymunedol, sefydliadau neu elusennau hefyd i hyrwyddo'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu, gyda chyfle i rannu eu barn drwy sesiwn grwpiau ffocws a neilltuwyd yn benodol ar gyfer pob grŵp. Nod y sesiynau grŵp ffocws oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau Dyfed-Powys heb gynrychiolaeth ddigonol, o rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ynghyd â nodi meysydd ffocws allweddol o bwys i gymunedau Dyfed-Powys y dylid eu hystyried yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys 2025-2029. O'r 56 grŵp y cysylltwyd â nhw, roedd pedwar ar gael i gyfarfod o fewn y cyfnod ymgynghori, yn cynnwys 34 o fynychwyr.

Yn ogystal â'r sesiynau hyn, mynychodd cynrychiolwyr SCHTh fosg Aberdaugleddau i hyrwyddo'r ymgynghoriad, a chynhaliwyd stondin yn lladd-dy Dunbia yng Ngheredigion.

**Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu (holiadur ar-lein)**

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymerodd cyfanswm o 659 o bobl ran yn arolwg ar-lein y Cynllun Heddlu a Throseddu, a oedd ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. Roedd dulliau traddodiadol fel dosbarthu 1,000 o daflenni A5 mewn digwyddiadau fel Sioe Frenhinol Cymru a Sioe Sir Benfro yn ategu'r ymdrechion ar-lein.<br><br>Er mwyn cynyddu ymgysylltiad i'r eithaf, hyrwyddwyd yr arolwg ar-lein drwy ymgyrchoedd e-bost i gysylltiadau allweddol, postiadau cyfryngau cymdeithasol organig a rannwyd gan yr SCHTh a rhanddeiliaid, datganiadau i'r wasg, a bwletinau mewnol. Chwaraeodd hysbysebion digidol â thâl rôl hanfodol hefyd, gyda Wales Online a Cambrian News yn cynnal ymgyrchoedd a gynhyrchodd dros 105,000 o argraffiadau gyda'i gilydd. Yn ogystal, cynhyrchodd ein hysbysebion Meta Facebook, a dalwyd amdanynt yn fewnol ac a oedd yn cynnwys hysbysebion Saesneg a Chymraeg, 47,441 o argraffiadau.<br><br>Cyn yr hysbysebion, roedd tua 200 o ymatebion. Ar ôl yr ymgyrch, cynyddodd hyn i 659, gan nodi cynnydd o 229.5%, gan ddangos effeithiolrwydd hysbysebu digidol wedi'i dargedu.<br><br>Bwletinau misol a gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol<br><br>Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi cyhoeddi tri e-fwletin misol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r comisiynydd a'i swyddfa. Rydym hefyd wedi parhau i rannu uchafbwyntiau cyfryngau cymdeithasol wythnosol y CHTh. |
| Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd amserol | | Mae rhai newidiadau wedi'u hymgorffori i'r ffordd rydym yn casglu gohebiaeth a ddaw i law yn SCHTh. Pan ddaw gohebiaeth i law bydd naill ai'n cael ei gofnodi fel "pryder cymunedol" neu "mater ar gyfer yr Adran Safonau Proffesiynol"<br><br>Lle bo gohebiaeth yn cael ei chategoreiddio fel mater ar gyfer yr Adran Safonau Proffesiynol, bydd yr aelod o'r cyhoedd fel arfer yn cael ymateb i'w hysbysu am y gŵyn a'r broses adolygu cwynion. Yn ystod y cyfnod hwn, allan o'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | 91 gohebiaeth a gofnodwyd, cofnodwyd 16 fel "mater Adran Safonau Proffesiynol". Ar ôl ystyried y pryderon a godwyd, roeddent yn ymwneud â’r awydd i wneud cwyn newydd am ymchwiliad.<br><br>Lle mae gohebiaeth wedi’i chategoreiddio fel "pryder cymunedol" mae hyn fel arfer yn golygu bod SCHTh yn cysylltu ag adrannau perthnasol o fewn yr heddlu ar ran yr aelod o’r cyhoedd. Mae’r rhain hefyd wedi’u rhannu’n is-gategorïau i nodi unrhyw dueddiadau. Yn ystod y cyfnod hwn, nodwyd bod cynnydd wedi bod yn nifer y pryderon a godwyd ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei fonitro dros y chwarter nesaf a bydd yn bwydo i weithgarwch craffu arall. |
| Annog preswylwyr i gyfrannu at weithgarwch sicrwydd a chraffu | | Mae dau aelod o’r panel Sicrhau Ansawdd yn aros am hyfforddiant cynefino. Mae un Ymwelydd Annibynnol â’r Ddalfa newydd ac un Ymwelydd Lles Anifeiliaid wedi’u penodi yn amodol ar wirio.<br><br>Mae’r SCHTh yn cynnal ymgyrch recriwtio ar gyfer pob cynllun gwirfoddol. Mae rheolwyr y cynllun yn gweithio ochr yn ochr â thîm ymgysylltu SCHTh i sicrhau bod y cyfleoedd yn cael eu hyrwyddo’n eang.<br><br>Cynhaliwyd cyfanswm o 30 o ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa yn ystod y cyfnod hwn. Ymhlith y pryderon mwyaf cyffredin a godwyd gan yr Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa roedd problemau staffio, golchi dillad, eitemau crefyddol, iechyd a diogelwch, a darpariaethau achosion iechyd yn y ddalfa.<br><br>Cynhaliodd SCHTh mewn partneriaeth â’r heddlu gyfarfod cyntaf y Panel Craffu ar Ddalfeydd. Canolbwyntiodd y panel ar bobl ifanc yn y ddalfa. Caiff yr adborth gan y panel ei ddadansoddi a’i adrodd i’r heddlu. Cyhoeddwyd y canfyddiadau. Bydd y Panel Craffu ar Ddalfeydd nesaf yn canolbwyntio ar oedolion priodol a phobl fregus. |

| | | |
|---|---|---|
| Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddioddefwyr a phobl fregus | | Ni ddisgwylir adroddiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder tan ganol y flwyddyn. Derbyniwyd a rhannwyd mecanweithiau adrodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder â darparwyr. Disgwylir cyflwyno ddiwedd mis Hydref.<br><br>Ni dderbyniwyd cwynion gan CHTh ynghylch darparwyr gwasanaeth. Mae'r broses gwyno yn rhan o'r cylch archwilio blynyddol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.<br><br>Mae cwestiynau craidd yn y templed caffael ynghylch sut y bydd gwasanaethau'n cael eu gwneud yn hygyrch o nifer o safbwyntiau gan gynnwys elfennau daearyddol, ffisegol, iaith, amrywiaeth, cydraddoldeb a gallu a rhoddir sgôr iddynt fel rhan o'r broses gaffael. Rydym hefyd yn sicrhau bod y cwestiynau hyn yn cael eu hymgorffori mewn prosesau tendro a gynhelir gan bartneriaid lle rydym yn fuddsoddwr ar y cyd. Bellach mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnal asesiadau monitro cydraddoldeb blynyddol ochr yn ochr ag adroddiadau naratif; bydd hyn yn ychwanegol at y data sydd ei angen ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br><br>Mae fframwaith meintiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder eto i ymddangos. Cyfeirir at y gofynion adrodd yn y Bil Dioddefwyr ac mae trafodaethau ar y gweill ynghylch y fformat y bydd yn ofynnol i CHTh ei ddefnyddio i gasglu a monitro cydymffurfiaeth holl asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae strwythur llywodraethu Cymru gyfan yn ei le ac yn arwain ar drafodaethau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. |

**17j) Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a'r rhai sydd o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Fel y manylir yn 17c | Amherthnasol | Amherthnasol |

**17k) Cyhoeddi gwybodaeth a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gwybodaeth y mae'r CHTh yn ei hystyried yn angenrheidiol i alluogi'r bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu i asesu perfformiad y CHTh a'r Prif Gwnstabl**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig | | Mae gwefan newydd wedi'i lansio ac fel rhan o ddatblygiad y wefan, gwnaed gwaith i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol yn unol â'r Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig. Bydd y wefan yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyfredol ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. |
| Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hawdd ei gael | | Mae'r Nod Ansawdd Tryloywder a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn dangos ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael ar y wefan a pha mor hawdd yw hi i bawb gael gafael arni.<br><br>Mae monitro rheolaidd y wefan yn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn hygyrch i bawb. Nid oes unrhyw arwydd hyd yma y bydd y llywodraeth newydd yn dechrau monitro cydymffurfiaeth gwefannau pob Comisiynydd Heddlu a Throseddu.<br><br>Mae'r wefan wedi cael ei hadolygu ac mae'r wybodaeth yn gyfredol. Mae hyn yn parhau i fod yn felyn gan fod gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddatblygu'r wefan ymhellach gan gynnwys cyfleuster chwilio. |
| Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg | | Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir yn cael ei chyfieithu fel mater o drefn fel arfer cyn cyhoeddi unrhyw beth, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yr un fath bob amser. |
| Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynir yn rhagweithiol | | Adolygwyd cynnwys gwefan newydd SCHTh a'i ddiweddaru lle bo'n briodol. Mae dolen i'r wefan wedi'i chynnwys yn y pecynnau gwybodaeth i ddioddefwyr. Mae perfformiad gwasanaethau unigol a dogfennau trosolwg wrthi'n cael eu diweddaru ar gyfer allbwn 2023/24 ar hyn o bryd. Gweithio gyda'r tîm ymgysylltu i gynhyrchu clip |

| | | |
|---|---|---|
| | | ffilm wedi'i animeiddio i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynir ymhlith y cyhoedd ac yn fewnol gyda'r heddlu.<br><br>Mae tîm ymgysylltu CHTh wedi'i gysylltu â thimau'r wasg yr holl wasanaethau a gomisiynir ac wedi sefydlu gweithgor i rannu erthyglau cyfryngau cymdeithasol a'r wasg ar y cyd. Erthyglau cyfryngau cymdeithasol rheolaidd yn cael eu rhannu ynglŷn â gweithgareddau gwasanaethau a gomisiynir ac yn cael eu cynnwys mewn cylchlythyrau. Cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu i lansio gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr newydd yn dechrau ar 1 Tachwedd.<br><br>Mae timau Comisiynu ac Ymgysylltu yn parhau i ddarparu tystiolaeth ac enghreifftiau o arferion gorau o waith o fewn Dyfed-Powys i alwadau cenedlaethol am dystiolaeth gan Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chyrff cenedlaethol. Gweithio gyda'r tîm ymgysylltu i gynhyrchu clip wedi'i animeiddio i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynir.<br><br>Mae pob contract yn cynnwys gofyniad safonol ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau. Mae cyfarfodydd gweithredu gwasanaethau yn cynnwys canolbwyntio ar gynlluniau cyfathrebu yn ystod camau gweithredu ac ar ddechrau darparu gwasanaeth mewn cysylltiad â SCHTh a chyfathrebu'r heddlu lle bo'n briodol. Mae'n ofynnol i wasanaethau a gomisiynir gydnabod ffynhonnell ariannu CHTh/y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mhob cyhoeddusrwydd a deunydd. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnal asesiadau cydraddoldeb a darparu tystiolaeth o weithgarwch codi ymwybyddiaeth ym mhob cymuned. Bydd hyn yn ein helpu i lywio unrhyw feysydd ffocws penodol sydd eu hangen ar gyfer cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol. |

**17l) Cydymffurfio â phob cais ffurfiol rhesymol gan y panel i fynychu eu cyfarfodydd**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Presenoldeb chwarterol yng nghyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu | | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynychu holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a phrif swyddog y panel i sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth berthnasol ac amserol. |
| Darparu dogfennaeth i'r Panel Heddlu a Throseddu yn unol â'u ceisiadau | | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynd i holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a phrif swyddog y panel i sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth berthnasol ac amserol. |
| Cyswllt rheolaidd rhwng SCHTh a'r Panel Heddlu a Throseddu i gefnogi cyflawni dyletswyddau statudol | | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynychu holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a swyddog allweddol y panel i sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth berthnasol ac amserol. |

**17m) Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r panel ar gyflawniad y CHTh yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn y cynllun | | Ystyriwyd yr adroddiad blynyddol drafft gan y panel yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r panel yng nghyfarfod mis Hydref. |

**17n) Monitro pob cwyn a wneir yn erbyn swyddogion a staff, ac yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Ymdrin â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl | | Yn ystod y cyfnod hwn, daeth tri cwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl i law. Roedd un cwyn ynghylch defnyddio arfbais yr heddlu, sef cwyn a anfonwyd at bob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Roedd y ddwy gŵyn arall yn ymwneud ag awdurdod dirprwyedig ac nid oeddent yn bodloni'r meini prawf i gael eu cofnodi. |
| Sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith yn barod ar gyfer rolau cynyddol y CHTh mewn cwynion fel yr amlinellir yn Neddf yr Heddlu a Throseddu 2017 | | Daeth 16 o adolygiadau newydd i law yn ystod y cyfnod hwn, bydd un yn cael ei gario drosodd i'r chwarter adrodd nesaf gan iddo gyrraedd ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn.<br><br>Cwblhawyd cyfanswm o 22 o adolygiadau cwynion yn ystod y cyfnod adrodd. Cadarnhawyd pedwar cwyn yn yr adolygiadau oherwydd nad oedd y canlyniad yn cael ei ystyried yn rhesymol ac yn gymesur.<br><br>Mae'r SCHTh hefyd yn cofnodi materion goruchwylio lle gellid gwella'r gwasanaeth. Mae'r themâu goruchwylio a nodwyd yn ymwneud ag amserlenni trin cwynion a pheidio â derbyn diweddariad ystyrlon o fewn 28 diwrnod. Mae hyn wedi cael ei godi gyda'r Adran Safonau Proffesiynol yng nghyfarfod Bwrdd Sicrwydd yr Adran Safonau Proffesiynol diweddar. |

**18) Rhaid i CHTh beidio â llyffetheirio annibyniaeth weithredol yr heddlu**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Datblygu ac adolygiad blynyddol y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol | | Unwaith y daw'r adolygiad o drefniadau llywodraethu i ben, bydd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei adolygu. |

**19) Mynediad at wybodaeth, swyddogion a staff**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Trin gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data | | Fel corfforaeth undyn, mae'r SCHTh yn destun ceisiadau rhyddid gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Derbyniwyd 12 cais rhyddid gwybodaeth yn ystod y cyfnod ac roedd gan SCHTh yr wybodaeth ar gyfer tri ohonynt. Atebwyd y ceisiadau mewn pryd. Themâu'r ceisiadau oedd noddi digwyddiadau Pride, gosod praesept yr heddlu, ac iawndal am derfysgoedd. Roedd y ceisiadau nad oedd gan yr SCHTh yr wybodaeth ar eu cyfer yn ymwneud â data personol, cŵn heddlu, amseroedd ymateb yr heddlu, ystadau, cyfathrebu symudol, amrywiaeth a materion gweithredol yr heddlu. |

**20a) Darparu diogelwch cymunedol a lleihau trosedd**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Datblygu a gweithredu fframwaith llywodraethu ar gyfer comisiynu a phartneriaethau | | Strategaeth gomisiynu yn ei lle sy'n disodli dogfennau blaenorol. Ar gael ar wefan newydd CHTh. Strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer cyfnod 4.<br><br>Mae Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu wedi bod yn ei le ers sawl blwyddyn ac yn yr amser hwnnw mae aelodau wedi deillio o blith cydweithwyr yn yr heddlu, asiantaethau partner a chynrychiolwyr paneli gwirfoddolwyr y Comisiynydd. Mae gwasanaethau a gomisiynir a'r rhai sy'n derbyn cyllid wedi cyflwyno i'r bwrdd ac wedi ateb cwestiynau i graffu ar berfformiad a dangos |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwerth am arian. Dros amser, mae pob gwasanaeth wedi cyflwyno sawl gwaith ac mae angen adnewyddu fformat y bwrdd. Yn anffodus mae nifer o aelodau wedi rhoi rhybudd eu bod yn ymddiswyddo oherwydd bod ganddynt alwadau sy'n cystadlu am eu hamser fel gwirfoddolwyr. Felly mae craffu ar wasanaethau a gomisiynir a'r rhai sy'n derbyn cyllid y Comisiynydd wedi'i ystyried a'i ymgorffori o fewn strwythur llywodraethu cyffredinol SCHTh. Mae'r dull pwyllgor dethol arfaethedig yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir i gyfrannu. Gall hyn fod yn ddeublyg o ran cyfrannu tystiolaeth a her fel y bo'n briodol ond hefyd er mwyn cyflwyno cyd-destun a pherfformiad eu darpariaeth gwasanaeth gan sicrhau bod hyn yn cael ei blethu i ffrydiau gwaith yr heddlu a phartneriaid.<br><br>Cofrestr contractau yn ei lle ac wedi'i hadolygu ar gyfer cyfnod 4, ochr yn ochr â gwerthuso a chynllun archwilio ar gyfer dyfodol yr holl wasanaethau a gomisiynir. Cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau a'r Pennaeth Caffael. Mae nifer o ymarferion ailgomisiynu i'w cynnal yn ystod 2024/25, i gyd ar y trywydd iawn ar gyfer caffael agored yn chwarter 3.<br><br>Mae pob cyswllt partneriaeth, gan gynnwys rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi cael eu gwahodd i ddigwyddiadau ymgynghori ym mis Medi 2024. Maent hefyd wedi derbyn yr arolwg sy'n cael ei hyrwyddo trwy nifer o lwybrau.<br><br>Mae'r broses gwerthuso tendrau ar gyfer gwasanaethau newydd a sgorio ar gyfer ceisiadau grant yn cynnwys gofyniad i gysylltu â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae gan y Pennaeth Sicrwydd blaengynllun gwaith ar waith i adolygu'r gwasanaeth a ddarperir o gymharu â'r galw ar flaenoriaethau'r heddlu, y Cynllun Heddlu a Throseddu a chostau |

| | | |
|---|---|---|
| | | unedau. Bydd hyn yn dechrau ym mis Medi 2024 gan ganolbwyntio ar wasanaethau trais rhywiol.<br><br>Blaenoriaethau a chynllun cyflawni Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol wedi'u halinio â blaenoriaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae'r agenda a'r strwythur wedi'u diwygio i ganolbwyntio mwy ar gyflawniad a pherfformiad lleol. Cymeradwyo cynllun cyflawni 2024/24, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol megis cynllun gwneud iawn â'r gymuned ochr yn ochr â gwaith cenedlaethol ar Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, a cham-drin domestig ac ati. Mae holl gysylltiadau'r bartneriaeth, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, wedi'u gwahodd i ddigwyddiadau ymgynghori ym mis Medi 2024. Maent hefyd wedi derbyn yr arolwg sy'n cael ei hyrwyddo drwy nifer o lwybrau. |
| Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a lleihau trosedd | | Mae grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei arian cyfatebol gan gyllid craidd y CHTh. Cyfanswm y grant ar gyfer 2024/25 yw £1,411,634 o gyfanswm cyllideb gomisiynu o £2.74 miliwn. Felly, mae'r CHTh yn darparu tua 49% o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau. Nodir hyn yn natganiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder lle caiff arian cyfatebol ei adrodd i weinidogion. Ar hyn o bryd, sicrheir dyfarniadau grant tan ddiwedd Mawrth 25. Darparwyd tystiolaeth fanwl gan Heddlu Dyfed-Powys i gyfrannu at wybodaeth adolygiad gwariant ar gyfer Gweinidogion. Yn aros am gyhoeddiadau am ddyfarniadau cyllido.<br><br>Trefnir cyfarfodydd chwarterol rhwng rheolwyr partneriaethau troseddu ieuenctid, rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chynrychiolwyr SCHTh. Mae swyddogion polisi yn cynrychioli SCHTh ar yr holl Fyrddau Rheoli Troseddau Ieuenctid a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar draws ardal yr heddlu. Cyfiawnder ieuenctid yw prif ffocws Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ar hyn o bryd. Mae cynrychiolydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chynrychiolydd y Bwrdd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynllunio Ardal yn aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol sy'n arwain ar waith atal. Mae gwaith yn parhau gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau troseddu ieuenctid i gyflawni'r Ddyletswydd Trais Difrifol, yn enwedig datblygu ymyriadau o dan y cynllun cyflawni.<br><br>Mae telerau ac amodau grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael eu bodloni, a chydymffurfiaeth yn cael ei chofnodi a'i chymeradwyo gan y Prif Swyddog Ariannol ar gyfer ffurflenni grant. Mae cytundebau grant a chontractau gyda darparwyr yn sicrhau bod y telerau ac amodau priodol yn cael eu bodloni. Mae'r amserlen archwilio yn cynnwys gwiriadau ar gydymffurfiaeth.<br><br>Mae darparu cyfiawnder adferol yn swyddogaeth statudol i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, sy'n gweithio gyda gwasanaethau dioddefwyr i nodi a chysylltu â dioddefwyr fel y bo'n briodol. Mae angen adnewyddu hyfforddiant Heddlu Dyfed-Powys ac mae angen tynnu sylw at lwybrau atgyfeirio. Bydd hyn yn flaenoriaeth wrth weithredu'r gwasanaeth atgyfeirio dioddefwyr newydd unwaith y bydd y gwasanaethau ar waith ym mis Tachwedd. Mae arweinydd yr heddlu wedi'i nodi ac ar hyn o bryd mae'n adolygu polisi a gweithrediad o fewn Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>Mae pob cyswllt partneriaeth, gan gynnwys rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, wedi'u gwahodd i ddigwyddiadau ymgynghori ym mis Medi 2024. Maent hefyd wedi derbyn yr arolwg sy'n cael ei hyrwyddo drwy nifer o lwybrau. |

**20b) Partneriaethau Diogelwch Cymunedol**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Amherthnasol yng Nghymru | Amherthnasol | Amherthnasol |

**20c) Grantiau lleihau trosedd ac anhrefn**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu grantiau trosedd ac anhrefn | | Yn dilyn canlyniad llwyddiannus yr archwiliad ar ddechrau'r flwyddyn, cyflwynwyd diweddariadau gwella pellach i reoli'r broses gyllid o ran cyllid grant a dyfarniadau rhoddion yn well.<br>Yn dilyn trafodaethau gyda Phrif Swyddog Ariannol dros dro SCHTh a'r Prif Swyddog Cyllid, gwnaed gwelliannau pellach i'r templed sgorio ariannu i ddarparu rhesymeg gadarn ar gyfer sgoriau ariannu sy'n gwella cydymffurfiaeth â llywodraethu.<br><br>Yn ystod y chwarter hwn, mae cysylltiadau wedi'u sefydlu â rheolwyr ariannu swyddfeydd comisiynwyr heddlu a throseddu eraill Cymru ac mae cyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu i drafod arferion gorau, rhannu gwybodaeth a chydweithio ar draws rhanbarthau lle bo'n briodol gwneud hynny. |
| Darparu grantiau lleihau trosedd ac anhrefn o fewn 2024/2025 | | Yn ystod chwarter 2, mae tri cais newydd am gyllid a/neu roddion wedi cael eu cymeradwyo gyda gwerth y gyfynnwyd amdano o £85,365.35.<br><br>Cafwyd 18 o ymholiadau am gyllid yn ystod chwarter 2, mae rhai yn cael eu datblygu ac rydym yn aros am geisiadau am gyllid. Mae'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael grant CHTh wedi cael gwybod a darparwyd cyngor iddynt ar ffynonellau cyllid grant eraill i gefnogi eu gweithgareddau. |
| Gwerthusiad o grantiau lleihau trosedd ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad | | Mae'r ffurflen gais ddiwygiedig yn rhoi blaenoriaeth i werth am arian a chynaliadwyedd, gan sicrhau bod ymatebion manwl yn cael eu darparu ar gyfer y ddau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae hyn hefyd yn rhan o'r broses sgorio ddiwygiedig i sicrhau bod egwyddorion economi gylchol yn cael eu hystyried a'u nodi yn y cais a'u sgorio'n briodol.<br><br>Mae'r cytundeb grant diwygiedig yn caniatáu ar gyfer dulliau wedi'u teilwra i ofynion monitro sy'n bodloni canlyniadau disgwyliedig y prosiect ac sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.<br><br>Disgwylir i'r rheini sy'n derbyn cyllid amlinellu sut mae eu prosiect yn cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig ac yn darparu buddion lleihau trosedd cadarnhaol i'w cymunedau. |

**20d) Cytundebau cydweithio**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Fel y manylir yn 17h | Amherthnasol | Amherthnasol |

**20e) Cyfrifoldeb ehangach am wella darpariaeth cyfiawnder troseddol yn eu hardal**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi gwerth am arian | | Cyfarfod adolygu chwarter 4 i gyd wedi'u cynnal. Dim ond pryderon a nodwyd ynglŷn â pherfformiad gwasanaeth Goleudy, sydd wedi'i ddogfennu'n dda ac wedi'i chynnwys ar y gofrestr risg. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n adrodd am heriau oherwydd cynnydd mewn costau byw wedi'i gydbwyso yn erbyn diffyg chwyddiant sy'n berthnasol i gontractau CHTh. Mae hyn wedi'i uwchgyfeirio i'r Prif Swyddog Cyllid ac mae'n cael sylw drwy ganiatáu twf blynyddol o fewn cyllidebau ar gyfer contractau a ailgomisiynir a |

| | | |
|---|---|---|
| | | thrwy gyfraniadau untro ar sail tystiolaeth i’r darparwyr hynny yng nghanol cyfnod y contract.<br><br>Mae archwiliad blynyddol yn cynnwys adolygiad o amseroldeb a chynnydd cadarnhaol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Mae pryderon perfformiad Goleudy yn parhau oherwydd diffyg gwybodaeth adrodd am berfformiad i ddangos a yw’r camau gweithredu wedi unioni’r problemau. Nid yw’r heddlu yn gallu cynhyrchu’r data hwn ac felly mae hyn yn parhau ar y gofrestr risg. Bydd gwasanaeth atgyfeirio dioddefwyr newydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2024. Gofynnwyd am ddata perfformiad gan Goleudy fel rhan o gynllunio ar gyfer gadael y gwasanaeth.<br><br>Mae CHTh yn parhau i ymweld â gwasanaethau priodol fel rhan o ddiwrnodau ymgysylltu cymunedol. Fe fydd y tîm comisiynu yn bwydo i’r amserlen ar gyfer ymweliadau CHTh â gwasanaethau a’r rhai sy’n derbyn cyllid yn unol â gweithgarwch ymgysylltu â’r gymuned.<br><br>Mae craffu ar wasanaethau’r comisiynydd a’r sefydliadau sy’n derbyn cyllid y comisiynydd wedi’i ymgorffori yn strwythur llywodraethu cyffredinol SCHTh. Mae’r pwyllgor dethol arfaethedig yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau’r comisiynydd gyfrannu. Gall hyn fod yn ddeublyg o ran cyfrannu tystiolaeth a herio fel y bo’n briodol ond hefyd cyflwyno cyd-destun a pherfformiad eu darpariaeth gwasanaeth gan sicrhau bod hyn wedi’i blethu i ffrydiau gwaith yr heddlu a’i bartneriaid. |
| Cyfraniad CHTh i agenda Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan | | Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys yn cydweithio’n agos â’r cydlynydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru i sicrhau bod blaenoriaethau ac adrodd yn cyd-fynd â’r trefniadau Cymru Gyfan. Mae uchafbwyntiau allweddol yn yr adroddiad diweddar yn cynnwys agor canolfan menywod yng Nghaerfyrddin, darparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr stelcio, cynllun i weithredu cymorth cam-drin domestig yn llys teulu Dyfed Powys ac ailgomisiynu cynlluniau |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymorth i droseddwyr cam-drin domestig. Y risg uchaf a amlygwyd yw diffyg llety i droseddwyr ar bob lefel risg.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ym mis Medi 2024, yn canolbwyntio ar flaenoriaeth pobl sy'n troseddu gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am reoli'r garfan sy'n cael ei rhyddhau'n gynnar o'r carchar, prosiectau tai symud ymlaen a'r ganolfan menywod newydd. Bydd trefniadau llywodraethu newydd yr SCHTh yn ymgorffori craffu ar gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr ar gyfer pob asiantaeth cyfiawnder troseddol. |
| Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol CHTh | | Mae'r portffolios cenedlaethol wedi cael eu hadolygu ac mae'r comisiynydd yn eistedd ar y byrddau canlynol:<br>• Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan<br>• Plismona yng Nghymru (Cadeirydd)<br>• Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu<br>• Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel<br>• Bwrdd Diogelu Unedig Sengl gyda Llywodraeth Cymru<br>• Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol<br>• Cadeirydd Grŵp Llywio Cyflog Byw Canolbarth a Gorllewin Cymru<br><br>Mae meysydd arweiniol penodol wedi'u cytuno rhwng y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Llywelyn yn arwain ar y portffolios canlynol:<br>• Perfformiad, data ac ymchwil academaidd<br>• Plant a phobl ifanc (gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid)<br>• Cymunedau a phartneriaethau (gan gynnwys plismona bro a swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu)<br>• Materion gweithlu a safonau moesegol<br>• Goruchwyliaeth weithredol (bwrdd cydweithio, plismona'r ffyrdd, Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu a Chyd-uned Arfau Tanio Platinwm)<br>• Cyllid, cyllidebau a chaffael |